**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn o dan Reol Sefydlog 9.9:**
**Mis Ebrill 2005 tan fis Mawrth 2006**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o saith Pwyllgor Pwnc y Cynulliad. Llunnir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Pwnc gyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad o bryd i'w gilydd ar hynt eu rhaglenni gwaith. Mae'n crynhoi gwaith y Pwyllgor rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006.

## 2. Aelodaeth

2.1 Ein Haelodau rhwng mis Ebrill 2005 a mis Mawrth 2006 oedd Ann Jones (Cadeirydd), Glyn Davies (tan fis Rhagfyr 2005), Sue Essex (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), Mike German, Peter Law (o fis Ionawr 2006), Dai Lloyd, Val Lloyd (tan fis Rhagfyr 2005), David Melding (o fis Ionawr 2006), Catherine Thomas (o fis Ionawr 2006), Gwenda Thomas, Brynle Williams (tan fis Rhagfyr 2005).

## 3. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys llywodraeth leol a datblygu ymagwedd strategol tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw'n cynnwys cyfrifoldebau'r Gweinidog o ran arian y Cynulliad na materion sy'n ymwneud â pholisi neu arian sy'n perthyn i bortffolio arall.

3.2 Cynhaliodd y Pwyllgor 16 cyfarfod ffurfiol yn ystod cyfnod yr adroddiad.

3.3 Cyfarfu'r Pwyllgor yn anffurfiol ag Aelodau Ty'r Arglwyddi ym mis Ionawr 2006 i drafod ei welliannau arfaethedig i'r Mesur Gweinyddu Etholiadol.

3.4 Rhestrir cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Pwnc yn Rheol Sefydlog 9.7 a 9.8. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn sôn am agweddau penodol ar waith y Pwyllgor o dan y penawdau canlynol:

## 4. Gwaith a Chyflawniadau hyd yma
## Datblygu Polisïau (Rheol Sefydlog 9.7(i))

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor ar Reoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru**

4.1 Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2005, yn unol â'r protocol cytûn ar gyfer trafod adroddiadau ymchwiliad, cyflwynodd y Gweinidog ymateb ysgrifenedig i ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor.

**Gweithredu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd o fewn llywodraeth leol**

4.2 Ym mis Tachwedd 2005, yn unol â phrotocol cytûn ar gyfer monitro datblygiad polisïau, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth roi argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar waith.

**Trefniadau Etholiadol yng Nghymru**

4.3 Yn dilyn trafodaeth ar adroddiad y Comisiwn Etholiadol, *Etholiadau Lleol yng Nghymru 2004*, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl ei brosiect ar drefniadau Etholiadol yng Nghymru yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2005[1]. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion.[2]. Bu'r Pwyllgor ar nifer o ymweliadau rapporteur â Denmarc, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg, lle edrychwyd yn fanwl ar systemau pleidleisio gwahanol, pleidleisio electronig a chynnwys pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd.

4.4 Cyfarfu'r Pwyllgor â Syr Michael Lyons a Syr Jeremy Beecham, ac mae'r ddau yn cynnal ymchwiliadau i agweddau ar lywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr[3][4]. Cyflwynodd y Pwyllgor dystiolaeth i'r ddau adolygiad ar ffurf adroddiadau.

**<u>Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7(ii))</u>**

**Adroddiad y Gweinidog**

4.5 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Gweinidog ym mhob yn ail gyfarfod ac roedd hyn yn caniatáu iddynt graffu'n rheolaidd ar y polisïau a'r penderfyniadau y mae'r Gweinidog yn atebol amdanynt.

**<u>Adolygu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))</u>**

4.6 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Ym mis Ebrill 2005 bu'r Pwyllgor yn trafod Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2003-04. Ym mis Tachwedd 2005 bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2004-05.

**<u>Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))</u>**

**Deddfwriaeth Sylfaenol**

Y Mesur Gweinyddu Etholiadol

4.7 Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref, cytunodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn unfrydol i graffu ar y Mesur gyda'r bwriad o geisio dylanwadu arno wrth iddo fynd trwy San Steffan. Anfonodd y Pwyllgor adroddiad

---

[1] Cylch gorchwyl: '*Ystyried materion yn ymwneud â threfniadau etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, ac yn arbennig, cofrestru pleidleiswyr, canran y bobl sy'n pleidleisio, y bobl ifanc sy'n pleidleisio a phleidleisio mewn ieithoedd ac eithrio Saesneg; ystyried gwahanol fesurau a ddefnyddir o fewn systemau gwleidyddol eraill ar gyfer gwella'r ganran sy'n pleidleisio, cofrestru pobl ifanc a'u hannog i bleidleisio, ac i ba raddau y gallent gael eu cymhwyso i etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru; ystyried a oes unrhyw fesurau ychwanegol yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y trefniadau pleidleisio yng Nghymru yn gwbl gynhwysol; cyflwyno argymhellion.'*

[2] Roger Morris, cyn swyddog canlyniadau Lloegr, Roger Morris, swyddog canlyniadau Cymru, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, y Comisiwn Hawliau Anabledd, CEWC Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru

[3] Gellir dod o hyd i gylch gorchwyl Ymchwiliad Lyons yn: http://www.lyonsinquiry.org.uk/index.php?leftbar=home&text=introduction

[4] Gellir dod o hyd i gylch gorchwyl Adolygiad Beecham yn: http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/localservicedelivery/termsofref/;jsessionid=5ABBBAED0DE897CA6BFF026A967538F1?lang=cy

interim o'u canfyddiadau o'i brosiect craffu i'r Pwyllgor Sefydlog yn Nhy'r Cyffredin sy'n ymdrin â'r Mesur. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar y Mesur yn y ddau gyfarfod. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Craffu ar y Mesur Gweinyddu Etholiadol ym mis Ionawr 2006. Mae'r adroddiad yn argymell rhestr o welliannau i'r Mesur, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd. Mae hefyd yn cynnwys materion yn ymwneud â threfniadau etholiadol yn gyffredinol, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ar y Mesur ac ar brosiect craffu'r Pwyllgor, Trefniadau Etholiadol yng Nghymru. Anfonwyd yr adroddiad terfynol at yr holl Aelodau o Gymru yn Nhy'r Arglwyddi.

Ar 11 Ionawr, cyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor gynnig gerbron y Cyfarfod Llawn yn gofyn i'r Prif Weinidog ofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno gwelliannau'r Pwyllgor. Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol gydag 1 gwelliant.

**Is-ddeddfwriaeth**
4.8 Parhaodd y Pwyllgor i weithio i'w brotocol cytûn ar gyfer trafod Is-ddeddfwriaeth, sef protocol a sefydlwyd ym mis Mehefin 2004. Ym mhob yn ail gyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor amserlen fanwl yn dangos y ddeddfwriaeth arfaethedig o fewn portffolio'r Gweinidog a thrafodwyd 11 darn o ddeddfwriaeth ddrafft yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

4.9 Ceir manylion yr Offerynnau Statudol a drafodwyd gan y Pwyllgor yn Atodiad 1.

**Deddfwriaeth Ewropeaidd**
4.10 Ym mis Ionawr 2006, trafododd y Pwyllgor y dogfennau Ewropeaidd a gafodd eu hadneuo o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Yn ei gyfarfod ar 30 Mawrth, casglodd y Pwyllgor dystiolaeth ar y Gyfarwyddeb Cerbydau Gwyrdd arfaethedig. Anfonwyd eu casgliadau a'u hargymhellion at y Gweinidog, Aelodau Cymru yn Senedd Ewrop a'r Gweinidog dros Trafnidiaeth yn Llywodraeth y DU.

**Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8(ii))**
4.11Ym mis Mai 2005, trafododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau o ran y gyllideb o fewn Prif Grwp Gwariant Llywodraeth Leol ar gyfer 2006-07, ac ysgrifennodd at y Gweinidog i fynegi ei farn yn ffurfiol. Yn dilyn ei sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2005, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Gyllid yn unol â Rheol Sefydlog 21.

**Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii))**

4.12 Ni ystyriodd y Pwyllgor unrhyw adroddiadau a gyflwynwyd iddo yn unol â Rheol Sefydlog 23.

**Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))**
4.13 Bu enwebeion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor[5] ynghlwm wrth benodi'r Cadeirydd ac Aelodau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(v))**
4.15 Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion gan y Cynulliad i'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 9.8(v).

**5. Materion Trawsbynciol**

[5] Ann Jones a Glyn Davies (tan fis Rhagfyr 2005), David Melding (o fis Ionawr 2006).

5.1 Yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2006, trafododd y Pwyllgor ymateb awdurdodau lleol i'r ddeddfwriaeth cydraddoldebau yng Nghymru ac Adroddiad Cydraddoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004-05. Roedd yr holl gyfarfod yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac roedd Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal[6] yn bresennol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

5.2 Mae prosiect presennol y Pwyllgor ar drefniadau Etholiadol yng Nghymru yn ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb, yn cynnwys pleidleisio mewn ieithoedd ac eithrio Saesneg (gweler paragraff 4.4). Yn ystod cyfnod y prosiect, cysylltodd y Pwyllgor â sefydliadau perthnasol i gynorthwyo â'r gwaith.

## 6. Blaenraglen

6.2 Ceir rhaglen waith strategol y Pwyllgor yn Atodiad 2.

[6] Y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Stonewall Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd Uned Cydraddoldebau CLILC yn bresennol hefyd.

**Annex 1**

**Subordinate legislation considered by the Local Government and Public Services Committee**

There were 2 SIs formally referred to the Committee under SO 24.6

- The Food Hygiene (Wales) Regulations 2005
- The Feed Hygiene (Wales) Regulations 2005

In line with the agreed protocol for handing subordinate legislation in Committee, the following SIs were identified and subsequently scrutinised:

- The Local Authorities (Access to Information) (Exempt Information) (Wales) Regulations 2005
- The Valuation Tribunals (Wales) Regulations 2005
- The Local Authorities (Indemnification of Members and Officers) (Wales) Regulations 2005
- The Public Services Ombudsman for Wales (Jurisdiction and Transitional Provisions and Savings) Order 2006
- The Local Government (Best Value Authorities) (Power to Trade) (Wales) Order 2006
- NDR (Alternation of Lists and Appeals) (Wales) Regulations 2006
- The Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2005
- Local Government (Improvement Plans) (Wales) Order 2006.

In line with SO 26, the Committee considered The Civil Contingencies Act 2004 (Contingency Planning) Regulations 2005

Reports on the above can be found on the Committee's website[7].

The following SIs have been identified by the Committee for future consideration:

- The draft Regional Transport Planning (Wales) Order 2006
- The draft Public Transport Users' Committee for Wales (Establishment) Order
- Council Tax (Alteration of Lists and Appeals) Regulations 1993 (SI 1993/290)
- The Standards Committees (Wales) Regulations 2006
- Local Authorities (Political Restrictions Regime) (Wales) 2005

[7] http://www.wales.gov.uk/keypubassemlocgovpubsvs/content/reports-e.htm

**Annex 2**
**LGPS 08-06(p)**

**Local Government and Public Services Committee**

**Committee's forward work programme**

Purpose

1. To agree the Committee's forward work programme for the coming twelve months.

Strategic work programme

2. Standing Order 9.9 requires subject committees to maintain a rolling programme of work covering a period of at least 12 months, and to report to plenary from time to time on progress.

3. The draft strategic work programme at Annex 1 suggests ways of working that aim to strike a balance between the policy development and scrutiny responsibilities of the Committee.

4. A more detailed draft programme for the autumn term will be agreed at the end of the summer term.. It will be based on key policy issues and priorities being taken forward by the Welsh Assembly Government and other matters identified as being of potential interest to this Committee.

Action for the Committee

5. The Committee is invited to comment on and agree the draft strategic work programme attached at Annex 1

**Ann Jones AM**
**Committee Chair**

**Annex 1**

## Local Government and Public Services Committee

## Strategic Forward Work Programme
## May 2006 to April 2007

### Introduction

1. This work programme sets out the strategic priorities of the Committee for the next twelve months.

### Remit and responsibilities

2. The Committee's remit is based on the portfolio of the Assembly Minister for Finance, Local Government and Public Services and covers local government, the development of a strategic approach to the delivery of public services and the Wales Spatial Plan. It does not cover the Minister's responsibilities in respect of the Assembly's finances or policy or financial matters falling solely within another portfolio.

3. The responsibilities of subject committees, as set out in Standing Order 9, are principally: policy development; scrutiny of Ministers and relevant bodies; and scrutiny of legislation.

### Aims

4. The Committee will develop a strategic approach to its work and aim to balance consideration of subjects across the portfolio and its range of responsibilities.

### Priorities

5. Priorities for the coming period will be:

*Policy development (SO 9.7(i))* – the Committee will focus on those areas of policy development where it can make the greatest impact. It will continue with its project on electoral arrangements in Wales, for which the terms of reference[8] have been agreed. The Committee will continue to follow-up progress on implementation of recommendations from its inquiry reports *The*

---

[8] *To consider the issues surrounding the arrangements for local government and National Assembly elections in Wales, in particular, voter registration, voter turnout, the participation of young people and voting in languages other than English; To consider a range of measures used within other political systems to improve voter turnout, registration and the participation of young people and the extent to which they could be applied to local government and National Assembly elections in Wales; To consider if any additional measures are required to ensure that voting arrangements in Wales are fully inclusive; and To make recommendations.*

*operation of new political management structures in local government* and *Regulation and Inspection of Public Services in Wales.* The Committee will continue with its scrutiny project in Electoral Arrangements in Wales and will publish its final report in the autumn of 2006. In addition the Committee will seek to help shape any reform of the public services agenda in Wales, which is brought about as a result of proposals in *Making the Connections.*

– *Scrutiny of the Minister (SO 9.7(ii))* - the Minister will report to the Committee at alternate meetings on current developments within the portfolio. The Committee may also undertake inquiries into particular topics in greater depth.

– *Scrutiny of relevant bodies (SO 9.7 (iii))* – the Committee will consider the work of the Local Government Boundary Commission for Wales, the Welsh Local Government Association, the Local Government Equalities Unit and the Local Government Data Unit of Wales.

– *Scrutiny of proposed legislation affecting Wales (SO 9.8(i) and 24)* – the Committee will receive, at alternative meetings, a timetable of forthcoming secondary legislation within its remit. The Committee will identify for scrutiny those items of legislation where there is scope to influence content and will also consider draft secondary legislation referred by the Deputy Presiding Officer as appropriate. In addition, the Committee will be informed of relevant proposed primary legislation.

The Committee will consider the following items as they arise:

– *proposals for the Assembly's budget* (SO 9.8(ii)) – the Committee will indicate its budget priorities in the summer term and comment on the draft budget in the autumn term;

– *complaints* (SO 9.8(iii) and 23) – the Committee will consider any complaints referred to it under Standing Order 23;

– *public appointments* (SO 9.8(iv) and 22) – the Committee's two public appointment nominees will take part in the process of appointments to public bodies as vacancies arise;

– *other matters referred by the Assembly* (SO 9.8 (v)) – the Committee will consider other matters referred to it by the National Assembly, but would ask Assembly Members to consult the Committee Chair before tabling motions inviting plenary to remit work to the Committee.

**The Assembly's Statutory Duties**

6. The Government of Wales Act 1998 places certain duties on the National Assembly, the Committee's work will be guided by the following:

– *Equality of Opportunity (s.48 and s.120)* - Committee meetings will be held in public and on occasion away from the National Assembly building to increase the accessibility of its business to people across Wales. Over the

range of issues within its portfolio, the Committee will have regard to equality of opportunity;

– *Sustainable Development (s.121)* - throughout its deliberations the Committee will focus on the need to balance economic and social growth with the conservation of the environment, through sustainable development. Its own policy review recommendations will reflect this principle.

Local Government and Public Services Committee
May 2006

**Local Government and Public Services Committee**
**June 2006**